



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cyfarfod:** Bwrdd Plismona  
**Lleoliad:** MS Teams  
**Dyddiad:** 17 Mehefin 2025  
**Amser:** 2pm–4pm

|                            |                                                                                                                                                                                                                                                             |
|----------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Yr Aelodau:</b>         | Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau, Dafydd Llywelyn (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Dros Dro, Ifan Charles<br>Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad, Linda Williams<br>Prif Weithredwr SCHTh, Carys Morgans<br>Prif Swyddog Cyllid Dros Dro SCHTh, Nicola Davies |
| <b>Hefyd yn bresennol:</b> | Swyddog Staff, yr Arolygydd Gemma Starkey<br>Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan                                                                                                                                                                       |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y CHTh bawb i'r cyfarfod. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

## 2. Diweddariad ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r cam gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Diweddariad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
|-----------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| PB 070                | Ceisio diweddariad gan Linda Williams, Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad ynghylch pryd y byddai adroddiad adolygiad annibynnol ar ddiwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei ystyried gan arweinwyr adnoddau dynol, a phryd y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd Plismona. | <b>Wedi'i gwblhau</b><br><br>Diweddariad gan Linda Williams:<br><br>Oherwydd capasiti o fewn y tîm, ni chafodd hyn ei gynnwys yng nghyfarfod mis Mai o'r Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg ac nid yw'r camau gweithredu wedi'u cwblhau eto. Bydd LW yn gwneud trefniadau ar gyfer Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg mis Gorffennaf ac yn delio â'r Uwch-arolygydd Phil Rowe. |
| PB 071                | Cynnwys diweddariadau ynghylch yr asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data fel eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona.                                                                                                                                                                                                                            | <b>Wedi'i gwblhau</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |

|        |                                                                                   |                                                                                     |
|--------|-----------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|
| PB 072 | Y CHTh i ymgymryd â'r hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol sy'n ymwneud â hil. | <b>Ar y gweill</b><br><br>Aros am ddyddiadau'r hyfforddiant ar gyfer mis Medi 2025. |
| PB 073 | Y cyflwyniad Ymgysylltiad a Disgwyliadau i'w rannu â SCHTh.                       | <b>Wedi'i gwblhau</b>                                                               |

### 3. Pwnc ffocws:

#### a) Diweddariad ar baratoi ar gyfer arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu

Bu'r bwrdd yn trafod yr adroddiad diweddaru a ddarparwyd gan yr Arolygydd Janas. Yn dilyn gohebiaeth ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, darparwyd diweddariad bod arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb nesaf Heddlu Dyfed-Powys wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mai 2026. Ar hyn o bryd, y bwriad yw i Heddlu Dyfed-Powys fod yn y chweched tranche arolygu, ynghyd â Swydd Bedford a Swydd Gaerloyw.

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cael eu hysbysu yn swyddogol (cadarnhad llwyth 6) pryd y bydd yr wythnos arolygu yn mynd rhagddi (wythnos yn dechrau) 24 Tachwedd 2025. Byddant yn cael telerau'r arolygiad a chais am y ddogfen, ac fel rheol, bydd ganddynt bump wythnos i'w chwblhau a'i dychwelyd. Bydd yr ymarfer, adolygu a datblygu (trafodaeth adnoddau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu) yn mynd rhagddo yn yr wythnos yn dechrau ar 27 Ebrill 2026, gyda chasgliad tystiolaeth terfynol yn cael ei wneud yn yr wythnos yn dechrau ar 25 Mai 2026. Yna mae disgwyl i adroddiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2026.

Mae Mick Montford hefyd wedi cadarnhau bod cyfnod cyfredol arolygu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu yn agor ym mis Mehefin 2025. Yn ei hanfod, dyma ddechrau'r gwaith o gasglu gwybodaeth cyn yr arolygiad. Drwy gysylltu a thrafod, y gobaith yw y bydd y broses asesu barhaus hon yn galluogi Arolygiaeth Cwnstabliaeth EF i adolygu a chlirio unrhyw feysydd cyfredol eraill i'w gwella cyn i'r arolygiad newydd o effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu ddechrau'n swyddogol. Yn ogystal â hyn, maent wedi dechrau mynd i amrywiol gyfarfodydd llywodraethu'r heddlu i grynhoi dealltwriaeth o berfformiad presennol Heddlu Dyfed-Powys a rhai o'r heriau y mae'r heddlu'n eu hwynebu. Arsylwad yn unig yw hwn ar y cam yma ac nid gweithgaredd ymgysylltu ffurfiol.

Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol sy'n cadeirio cyfarfodydd hunanasesu fframwaith asesu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu. Cynhelir y cyfarfodydd hyn bob deufis gydag arweinwyr maes cwestiwn craidd effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu i fesur y cynnydd presennol ac i nodi unrhyw arferion da a bylchau neu feysydd i'w gwella yn

erbyn nodweddion da fframwaith asesu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu. Mae pob maes cwestiwn craidd fframwaith asesu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu wedi'i raddio'n goch, melyn neu wyrdd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd Teams gydag arweinwyr meysydd i'w gwella ac Arweinydd Cyswllt Heddlu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF, Mick Montford, i adolygu cynnydd yn erbyn ein meysydd presennol i'w gwella. Hyd yma, mae chwech o'r meysydd blaenorol i'w gwella wedi'u gwirio a'u cau gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF, gyda phedwar maes arall i'w gwella wedi'u cymeradwyo'n fewnol gan y Dirprwy Brif Gwnstabl, i'w hadolygu ymhellach gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF wrth iddi gasglu tystiolaeth cyn arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu.

Ar hyn o bryd, mae gan yr heddlu 22 o feysydd i'w gwella ar agor, a bu'r bwrdd yn trafod y meysydd i'w gwella agored o ran cywirdeb data trosedd a thimau plismona ac atal bro. Fel cam rheoli ychwanegol ar gyfer cwblhau a chymeradwyo meysydd i'w gwella Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF, cynigiwyd y dylid trefnu bod meysydd i'w gwella penodol Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF yn cael eu gwneud yn bynciau ffocws yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona sydd i ddod.

**Cam gweithredu: Trefnu bod meysydd i'w gwella penodol Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF yn cael eu gwneud yn bynciau ffocws yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona sydd i ddod.**

## **b) Gwerthuso Ymgyrch Ivydene**

Bu'r bwrdd yn trafod adroddiad gwerthuso Ymgyrch Ivydene. Dangosodd y dadansoddiad a oedd wedi'i gynnwys yn y gwerthusiad o ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd problemus dynodedig ostyngiad nodedig mewn gweithgaredd ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau cysylltiedig. Roedd gweithredu patrolau plismona mewn mannau problemus wedi chwarae rhan hanfodol yn y gostyngiad hwn, gyda mwy o oriau patrôl, ymyriadau wedi'u targedu, ac ymdrechion i ymgysylltu â'r gymuned wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â niwsans yw'r categori mwyaf cyffredin o hyd, er ei fod wedi arddangos tuedd ar i lawr yn ystod misoedd y gaeaf. Drwy ryngweithio ag unigolion, busnesau a chymunedau sy'n anodd eu cyrraedd, mae patrolau wedi gwella'r gydberthynas rhwng yr heddlu a'r gymuned, ac wedi hyrwyddo ymdeimlad o ddiogelwch a chysur. Ategir effeithiolrwydd yr ymdrechion hyn ymhellach gan adborth swyddogion a chanlyniadau arolygon cymunedol, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd buddsoddi'n barhaus mewn strategaethau plismona rhagweithiol.

Wrth symud ymlaen, mae parhau i orfodi, ymgysylltu â'r gymuned a dyrannu adnoddau strategol yn allweddol i gynnal y gwelliannau hyn a lleihau digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau cysylltiedig

ymhellach. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi'r manau problemus, rhaid ystyried y boblogaeth uwch yn ystod misoedd yr haf.

Bu'r bwrdd yn trafod y galw yn ystod yr haf a gweithgaredd yr heddlu yn ystod yr haf.

**Cam gweithredu: Gwneud adolygiad o'r galw yn ystod yr haf, ac addewid yr heddlu i'r gymdogaeth yn bwnc ffocws yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona yn yr hydref.**

### **c) Adolygiad o'r cynhyrchiant blynyddol**

Bu'r bwrdd yn trafod adroddiad yr adolygiad o'r cynhyrchiant blynyddol. Mae'r adroddiad yn dangos ymrwymiad yr heddlu i sut y mae ei arian yn cael ei wario, a pha allbynnau sydd wedi'u cyflawni ar gyfer dioddefwyr, y cyhoedd a'r gweithlu.

Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid ychwanegu adran gwersi a ddysgwyd at yr adroddiad i lywio dysgu yn y dyfodol.

Holodd y CHTh ynglŷn ag amserlen yr adroddiad, a ph'un a fyddai'n ddogfen gyhoeddus a'i peidio. Dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro mai ei fwriad ef oedd i'r adroddiad fod yn ddogfen gyhoeddus, ac y byddai'n cael ei gwblhau ym mis Hydref.

**Cam gweithredu: Ychwanegu adran gwersi a ddysgwyd at adroddiad yr adolygiad o'r cynhyrchiant blynyddol.**

### **ch) Plant a phobl ifanc – adolygiad o ymyrraeth, atal ac ymgysylltu yn ardal Heddlu Dyfed-Powys**

Nodwyd bod y CHTh wedi cael cyflwyniad a diweddariad yn flaenorol gan yr Uwch-arolygydd Chris Neve a'i dîm ynghylch yr adolygiad o ran plant a phobl ifanc. Roedd y cyflwyniad wedi ei gyflwyno i uwch-noddwyr hefyd.

Gofynnodd y CHTh i lythyr gael ei anfon ar y cyd ar ran y CHTh a'r Prif Gwnstabl Dros Dro at brif weithredwyr ac uwch-arweinwyr yr awdurdodau lleol parthed datblygiadau a chynlluniau o fewn yr heddlu mewn perthynas â maes plant a phobl ifanc. Yn dilyn hyn, dylid trefnu cyfarfod ar y cyd.

**Cam gweithredu: Llythyr i gael ei anfon ar y cyd ar ran y CHTh a'r Prif Gwnstabl Dros Dro at brif weithredwyr ac uwch-arweinwyr yr awdurdodau lleol parthed datblygiadau a chynlluniau o fewn yr heddlu ynglŷn â'r adolygiad o ymyrraeth, atal ac ymgysylltu o ran plant a phobl ifanc yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.**

**Cam gweithredu: Drafftio cynllun cyfathrebu mewnol ac allanol ynglŷn â'r adolygiad o ymyrraeth, atal ac ymgysylltu o ran plant a phobl ifanc yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.**

#### **4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl**

##### **a) Pa offer diogelu sydd ar waith ar gyfer stopio a chwilio a defnyddio grym mewn perthynas â phlant?**

Ymatebodd y Prif Gwnstabl Dros Dro i gwestiwn a ofynnwyd gan y CHTh, gan ddweud mai'r broses gyfredol yw bod y swyddogion yn penderfynu a oes angen hysbysiad er diogelu'r cyhoedd a'i peidio. Teimlwyd nad dyma'r ymagwedd orau gan nad oedd cysondeb, ac y gellid colli cyfleoedd i ddiogelu.

Y cais yw bod rhaid i swyddogion gyflwyno hysbysiad er diogelu'r cyhoedd nawr ar gyfer pob achos o stopio a chwilio yn ymwneud ag unigolyn ifanc. Bydd hyn nawr yn caniatáu i'r heddlu adolygu a nodi unrhyw gamau diogelu pellach y gallai fod angen i'r heddlu neu bartneriaid eu cymryd.

Dyma gyfarwyddyd y mae'r rhan fwyaf o heddluoedd eraill ar draws y DU wedi'i ddilyn. Bydd hyn yn cynyddu llwyth gwaith y swyddog gan fod rhaid iddo gwblhau hysbysiad er diogelu'r cyhoedd, a llwyth gwaith yr uned agored i niwed, a fydd yn gorfod ei adolygu. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, 50 cofnod y mis a geir o fewn yr heddlu.

Mae defnyddio grym wedi'i gynnwys gan fod y rheswm dros ddefnyddio grym yn cyd-fynd ag unigolyn ifanc yn y ddalfa. Fel rhan o'r rhestr wirio ar gyfer pobl ifanc yn y ddalfa, mae gofyniad i gynnal gwiriadau diogelu.

Holodd y CHTh ynglŷn â'r broses brysbennu o ran adolygu a rhannu gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad er diogelu'r cyhoedd ag asiantaethau partner, ac a ydyw pob hysbysiad er diogelu'r cyhoedd yn cael ei gyfeirio at bartneriaid?

**Cam gweithredu: Swyddfa'r Staff i gadarnhau'r broses brysbennu wrth ystyried adolygu a rhannu gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad er diogelu'r cyhoedd ag asiantaethau partner, ac i gadarnhau a ydyw'r holl hysbysiadau er diogelu'r cyhoedd yn cael eu cyfeirio at bartneriaid.**

Holodd y Prif Weithredwr a oedd unrhyw weithgaredd gwerthuso posibl wedi'i gynnwys i ddeall effaith a chanlyniadau bwriadedig posibl y gweithgaredd hwn.

O ran atebolrwydd a chraffu, dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro fod yr Uwch-arolygydd Gweithrediadau Arbenigol yn cynnal cyfarfod ar stopio a chwilio, a bod defnyddio grym yn cael ei adolygu. Y Prif Gwnstabl Dros Dro i ystyried gweithgaredd gwerthuso posibl.

**Cam gweithredu: Y CHTh i rannu dogfen grynodeb Uned Gyswllt yr Heddlu gyda'r Prif Gwnstabl Dros Dro parthed stopio a chwilio mewn perthynas â phlant.**

## **5. I'w nodi**

### **a) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl**

Rhoddwyd adroddiad ar yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd, gan y Prif Gwnstabl, ynghylch digwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod blaenorol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am waith da gan yr heddlu, gan gynnwys diwrnod cymryd yr awenau gan yr heddlu gwirfoddol yng ngorsaf Llandrindod, yn ogystal â gwybodaeth weithredol a sefydliadol arwyddocaol, gan gynnwys gwaith yn ymwneud ag Ymgyrch Scotney.

Holodd y Prif Weithredwr ynglŷn â ffilmio ar gyfer rhaglen bosibl am Ymgyrch Scotney. Cadarnhaodd y Prif Gwnstabl Dros Dro y cafwyd trafodaeth ynglŷn â ffilmio'r rhaglen yng nghyfarfod y Grŵp Prif Swyddogion, ac y byddai'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn trafod y cwestiynau a godwyd gan y Prif Weithredwr â'r Grŵp Prif Swyddogion ynglŷn â'r ffilmio gyda'r cwmni.

### **b) Diweddariad y Comisiynydd Heddlu a Throseddau**

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad byr ar ei weithgareddau, a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ers y cyfarfod blaenorol, gan gynnwys diwrnod ymgysylltu cymunedol yng Ngheredigion, ymweliad â chanolfan gyfathrebu'r heddlu a chymryd rhan mewn sesiwn ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll a gynhaliwyd gan 'Kicks' Abertawe.

### **c) Diweddariad ar ddatblygu sefydliadol**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd, gan nodi bod Strategaeth Pobl, Diwylliant a Moeseg 2025–2029 bellach wedi'i chyhoeddi'n fewnol ac yn allanol.

Nodwyd bod yr Arolwg Llesiant Cenedlaethol yn cael ei gynnal gan y cwmni ymgynghori annibynnol, Leapwise. Er ei fod yn dod o dan faner llesiant, mae'n arolwg cynhwysfawr o ymgysylltu, a fydd yn rhoi cipolwg cyfoes i'r heddlu ar ymgysylltu â'r gweithlu. Mae'r amseriad yn ddefnyddiol iawn gan ei fod yn cael ei gynnal 12 mis ar ôl arolwg IiP diwethaf yr heddlu a hwyluswyd, a chwe mis cyn yr un nesaf, sydd i fod i gael ei gynnal ym mis Rhagfyr, ac a fydd yn rhan o broses ail-achredu Aur IiP.

Cyfradd ymateb yr heddlu oedd 22%, ac felly roedd yn uwch na'r gyfradd ymateb o 15% sy'n ofynnol i gael adroddiad pwrpasol fel y gall Heddlu Dyfed-



Powys alluogi'r heddlu i weithredu ar yr adborth a ddarparwyd gan eu swyddogion a staff. Disgwylir y canlyniadau ym mis Medi.

Mae cyfres o sleidiau sydd wedi'u diweddarau wedi'u datblygu ar gyfer digwyddiadau Ymgysylltiad a Disgwyliadau fel y gall pob pennaeth adran eu haddasu gyda diweddariadau lleol yn eu digwyddiadau tîm eu hunain, y mae'n ofynnol iddynt eu cynnal rhwng mis Mehefin a diwedd mis Awst 2025.

Mae'r newidiadau i flwyddyn gyntaf yr adolygiadau datblygu perfformiad bellach wedi'u rhoi ar waith, ac mae blwyddyn 2025–2026 yr adolygiadau datblygu perfformiad bellach wedi dechrau.

Mae prosesau recriwtio a dyrchafu newydd ar waith bellach ac mae pob unigolyn wedi cael eu hyfforddi yn unol â hynny.

Bu'r bwrdd yn trafod y prosiect Datblygu Pecyn Cymorth Llesiant ar y cyd â Phrifysgol Abertawe. Gwnaed y cyswllt cychwynnol â Phrifysgol Abertawe drwy'r CHTh sawl blwyddyn yn ôl, ond mae argaeledd cyllid ynghyd â diffyg adnoddau llesiant pwrpasol yn yr heddlu wedi gohirio datblygiad o ran cyflwyno cynigion cyn hyn.

Wrth gwblhau'r cais am gyllid, tynnodd Prifysgol Abertawe sylw'r heddlu ym mis Ebrill 2025 at y ffaith bod y ffrwd ariannu a ddewiswyd, Partneriaethau Smart, yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu ddarparu cyllid cyfatebol gwerth £73,000. Mae cynrychiolwyr o'r heddlu a SCHTh wedi cyfarfod ac wedi craffu ar y gofyniad yn erbyn y meini prawf cymhwysedd, ac nid ydynt yn credu bod hyn yn ymarferol. Mae'r heddlu yn fodlon cyflogi intern a recriwtiwyd gan y brifysgol am 12 mis ac i oruchwylio intern, sy'n cyfateb i un diwrnod yr wythnos o amser y Rheolwr Llesiant (oddeutu £10,690 mewn da), ond cred yr heddlu y byddai unrhyw fuddsoddiad pellach yn anodd, yn enwedig pan nad yw'r elw ar y buddsoddiad yn glir.

**Penderfyniad: Cytunodd y bwrdd ar yr argymhelliad i beidio â bwrw ymlaen â'r cyflwyniad i Brifysgol Abertawe ar gyfer y ffrwd ariannu Partneriaethau Smart.**

## **ch) Y newyddion diweddaraf am fodel gweithredu'r heddlu**

Mae'r heddlu wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd Rhaglen Adolygu'r Heddlu bellach yn dod i ben. Er gwaethaf hyn, bydd gwaith yn parhau i gyflwyno ffrydiau gwaith model gweithredu'r heddlu hyd at eu cwblhau dan arolygiaeth yr uwch-noddwyr.

Cyflwynwyd ail a thrydydd algorithm yr offer ymchwilio'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer troseddau difrod troseddol a siopladrad ar 14 Mai 2025. Ar 16 Rhagfyr 2024, penderfynodd uwch-noddwyr y byddai'r pedwerydd algorithm yn cael ei ddatblygu ar gyfer cyswllt â throseddau aflonyddu a chyfathrebu maleisus. Mae'r pedwerydd algorithm wedi'i ddatblygu ac y mae'n barod i'w ddefnyddio. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn dilyn cyflwyniad y gwerthusiad chwe mis o'r algorithm



cyntaf ar gyfer troseddau ymosodiad cyffredin a threfn gyhoeddus. Diweddariad i ddilyn ar gyfer cyfarfod nesaf y bwrdd.

Gweithredwyd y patrwm rota newydd ar gyfer plismona ymatebol a'r ddalfa ar 8 Mai 2025. Mae'r adborth cynnar ar y patrwm rota newydd yn hynod gadarnhaol.

Cafodd y bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ffrydiau gwaith eraill, gan gynnwys strwythur plismona gweithredol uwch (gweithdrefnau gweithredu safonol, model gweithredu timau plismona ac atal bro, cofnodi troseddau, a'r Uned Rheoli Adnoddau.

#### **d) Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data**

Rhoddodd y Prif Arolygydd Dros Dro, Delyth Evans, bapur diweddarau i'r bwrdd. Mae rhestr o'r holl asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data parhaus bellach wedi'i llunio. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer 12 Mehefin i'w hadolygu a'u graddio yn goch, melyn neu wyrdd er mwyn blaenoriaethu ymholiadau i'w cwblhau. Unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, bydd cofrestr lawn ar gael ac yn cael ei rhannu â'r Dirprwy Brif Gwnstabl a SCHTh.

Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda Chydlynnydd Rhannu Data Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i drafod gofynion a threfnu hyfforddiant ar y cyd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys a SCHTh. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i ymuno â heddluoedd cyfagos.

Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r adran TG i drafod defnyddio Microsoft Lists a Power Automate i reoli asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data yn barhaus. Nodwyd y byddai cyflwyniad yn cael ei wneud i gyfarfod nesaf y Grŵp Asesu Effaith Data ar 19 Mehefin. Byddai cyfleoedd ar gyfer awtomeiddio yn cael eu hystyried unwaith y byddai'r broses newydd hon wedi'i chytuno ac yn weithredol. Nodwyd bod Glannau Mersi yn defnyddio'r broses hon ac wedi cynnig cymorth.

Nodwyd bod y gwaith diweddarau ar ffurflen sgrinio'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yn parhau, ac y byddai drafft yn cael ei gyflwyno i'r gweithgor ym mis Mehefin.

Cynhaliwyd digwyddiad gwelliant parhaus ar gyfer y gofrestr asedau gwybodaeth a'r cofnod o weithgaredd prosesu ar 9 Mehefin. Cytunwyd y dylai cwmplas y gwaith hwn ar yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data gynnwys adolygiad o brosesau'r gofrestr asedau gwybodaeth a'r cofnod o weithgaredd prosesu oherwydd y cysylltiad agos rhyngddyn nhw a'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data.

Roedd y digwyddiad gwelliant parhaus wedi nodi dyblygiad o ran ceisiadau am wybodaeth gan berchnogion asedau gwybodaeth, a themâu tebyg mewn perthynas â gofynion hyfforddiant a TG. Nodwyd bod angen gwneud newidiadau sylfaenol i'r systemau presennol. Byddai datrysiadau TG newydd yn cael eu defnyddio fel uchod i greu prosesau symlach a mwy integredig, ac roedd yr anghenion o ran hyfforddi yn debyg ar draws y tri maes.

## 6. I'w benderfynu

### a) Darpariaeth cynnal a chadw systemau diogelwch a tân

Aeth Heddlu Dyfed-Powys allan i'r farchnad i ddod o hyd i gontractwyr i wasanaethu, cydymffurfio â chyfraith statudol, newid neu osod offer rheoli cyfleusterau hanfodol.

Hysbysebwyd y cyfle i gaffael ar wasanaethau gwe 'GwerthwchiGymru' a 'FindaTender'. Cynhaliwyd y digwyddiad caffael ar borth e-ddarganfod Jaggaer, lle gallai cyflenwyr 'hunan-wahodd' eu hunain i gael mynediad at yr holl ddogfennaeth tendr a chyflwyno cynnig.

Mae'r contract presennol ar fin dod i ben, ac y mae wedi cael ei ail-dendro yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, gan gynnig y cyfle i'r farchnad ehangach mewn ffordd deg a thryloyw. Yn ogystal â hyn, mae angen partneriaid dibynadwy ar Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol statudol. Mae'n hanfodol bod yr heddlu, trwy gystadleuaeth, yn dod o hyd i gyflenwyr sy'n bodloni safonau uchel ac yn caniatáu i'r tîm rheoli cyfleusterau gynnal gweithrediadau di-dor ar systemau hanfodol.

Agwedd arall y mae'n rhaid ei hystyried yw gwella diogelwch er mwyn sicrhau bod offer perthnasol sy'n gweithio i'w cael ar bob safle, megis larymau tân a diffoddwyr tân i gadw staff, ymwelwyr a'r holl bersonél ar y safle yn ddiogel.

Fel rhan o'r pedwar cytundeb a roddwyd ar waith, gofynnwyd i gyflenwyr gynhyrchu a chynnal rhestr asedau lawn, gan alluogi Heddlu Dyfed-Powys i warantu y rhoddwyd cyfrif am yr holl offer. Elfen eilaidd o'r cytundebau yw sylw bob awr o'r dydd, rhag ofn i unrhyw argyfyngau godi. Mae'n hanfodol bod contract ar waith i sicrhau bod gan yr heddlu gynllun wrth gefn rhag ofn y bydd unrhyw faterion annisgwyl yn codi y mae angen eu datrys yn gyflym.

Ar ôl cystadleuaeth gaffael agored a theg, argymhellir rhoi'r contract i'r cyflenwyr canlynol:

- Lot 1 Larymau – Comlink Fire & Security
- Lot 2 Rheoli Mynediad – Comlink Fire & Security
- Lot 3 Teledu cylch cyfyng – Comlink Fire & Security
- Lot 4 Diffoddwyr / Atalwyr tân – Churches Fire Security Cyf

Nid oes gwariant penodol ar gyfer gwerth y contract. Bydd cyfanswm gwariant y contract wedi'i gynllunio ac yn ad hoc ei natur. Yn amodol ar gymeradwyaeth, mae cyllideb awgrymedig o £65,000 ar gyfer 2025–2026 yn erbyn y codau cyllideb uchod.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y bwrdd yr argymhelliad i ddyfarnu'r pedwar lot i'r cyflenwyr a argymhellwyd.**

## 7. Unrhyw fater arall

### a) Ymateb y Prif Gwnstabl i arolygiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF i droseddau mewnfudo cyfundrefnol

Roedd y CHTh yn ddiolchgar i'r Prif Gwnstabl am yr ymateb i'r adroddiad, ac y byddai ymateb y CHTh yn cael ei rannu â'r heddlu ac yn cael ei gyhoeddi maes o law.

### b) Ymateb y Prif Gwnstabl i adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF – arolygiad o ymateb yr heddlu i'r anhrefn cyhoeddus ym mis Gorffennaf a mis Awst 2024: Tranche 2

Roedd y CHTh yn ddiolchgar i'r Prif Gwnstabl am yr ymateb i'r adroddiad, ac y byddai ymateb y CHTh yn cael ei rannu â'r heddlu ac yn cael ei gyhoeddi maes o law.

### c) Llythyr wedi'i anfon ar ran Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol

Nodwyd y llythyr a anfonwyd ar ran Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol, a bu'r bwrdd yn ei drafod.

### d) Llythyr Police Seen

Nodwyd y llythyr a anfonwyd ar ran Police Seen, a bu'r bwrdd yn ei drafod.

### e) Ad-dalu ardrethi

Bu'r bwrdd yn trafod yr ad-daliad ardrethi a oedd wedi dod i law.

**Penderfyniad: Cytunodd y bwrdd y dylid dyrannu'r ad-daliad ardrethi a ddaeth i law i'r buddsoddiad cyfalaf wrth gefn ar gyfer 2025–2026 ymlaen.**

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 17 Mehefin 2025                                                                                                                            | I'w symud ymlaen gan |
|-----------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|
| <b>PB074</b>          | Trefnu bod meysydd i'w gwella penodol Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF yn cael eu gwneud yn bynciau ffocws yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona sydd ar ddod. | SCHTh                |

|              |                                                                                                                                                                                                                                                                                           |           |
|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>PB075</b> | Gwneud adolygiad ar y galw yn ystod yr haf, ac addewid yr heddlu i'r gymdogaeth yn bwnc ffocws yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona yn yr hydref.                                                                                                                                        | Yr heddlu |
| <b>PB076</b> | Ychwanegu adran gwersi a ddysgwyd at adroddiad yr adolygiad o'r cynhyrchiant blyneddol.                                                                                                                                                                                                   | Yr heddlu |
| <b>PB077</b> | Anfon llythyr ar y cyd ar ran y CHTh a'r Prif Gwnstabl Dros Dro at brif weithredwyr ac uwch-arweinwyr yr awdurdodau lleol parthed datblygiadau a chynlluniau o fewn yr heddlu ynglŷn â'r adolygiad o ymyrraeth, atal ac ymgysylltu o ran plant a phobl ifanc yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. | Yr heddlu |
| <b>PB078</b> | Drafftio cynllun cyfathrebu mewnol ac allanol parthed yr adolygiad o ymyrraeth, atal ac ymgysylltu o ran plant a phobl ifanc yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.                                                                                                                                 | Yr heddlu |
| <b>PB079</b> | Swyddfa'r Staff i gadarnhau'r broses brysbennu wrth ystyried adolygu a rhannu gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad er diogelu'r cyhoedd ag asiantaethau partner, ac i gadarnhau a ydyw'r holl hysbysiadau er diogelu'r cyhoedd yn cael eu cyfeirio at bartneriaid.             | Yr heddlu |
| <b>PB080</b> | Y CHTh i rannu dogfen grynoded Uned Gyswllt yr Heddlu â'r Prif Gwnstabl Dros Dro parthed stopio a chwilio mewn perthynas â phlant.                                                                                                                                                        | SCHTh     |

DIWEDD